# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN

# 2023 / 2024

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanfrothen sy'n gosod cofnod o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/2024. Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae lle i 8 o gynghorwyr ar y Cyngor, gyda 2 sedd yn wag ar hyn o bryd, er gwaethaf ymdrechion i'w llenwi. Mae'r Cynghorydd Sir dros Ward Glaslyn, y Cynghorydd June Jones hefyd yn mynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol a gynhelir fel arfer bob mis Mai. Y Cynghorydd Nia Povey oedd Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2023/2024, a'r Is-gadeirydd oedd y Cynghorydd Elin Jones.

**Gwaith y Cyngor**

Dyma grynodeb o'r math o waith cyffredinol y mae'r Cyngor Cymuned wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

- Ceisiadau cynllunio - bydd y cynghorwyr yn edrych yn fanwl ar y ceisiadau cyn gwneud penderfyniad ar un ai gefnogi'r cais, dim gwrthwynebiad, neu wrthod.
- Gwaith ar y ffyrdd yn y gymuned – bydd yr Adran Priffyrdd yn anfon manylion am unrhyw waith ffyrdd a/neu ffyrdd yn cau.
- Derbynnir gwybodaeth am gynlluniau, deddfwriaeth newydd, ymgynghoriadau gam fudiadau megis Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri ac Un Llais Cymru, a bydd cyfle i'r Cyngor cymuned leisio barn ac ymateb.
- Materion yn y gymuned – bydd y cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau am broblemau sydd yn dod i'r amlwg o dro i dro.

- Mynwent Tan Lan – Y Cyngor sydd yn gyfrifol am Fynwent Tan Lan, am dorri'r gwair yno a'i chadw'n daclus
- Y Ganolfan, Llanfrothen – Mae gan y Cyngor les ar Y Ganolfan, Llanfrothen, ac mae yna le i grwpiau cymunedol gyfarfod a chynnal gweithgareddau yno

**Prif faterion a drafodwyd yn ystod y flwyddyn 2023/24**

**Datblygiad Tai Garreg Frech**

Cafwyd gwybod gan adran gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri fod ADRA yn tynnu'n ôl eu cais cynllunio ar gyfer 8 tŷ yn y cae uwchben Garreg Frech yn Llanfrothen.

Mae hyn am fod angen adroddiadau a gwaith dylunio ychwanegol.

Mae'n bosibl fod gan ADRA fwriad i gyflwyno cais cynllunio newydd pan fydd cyllid grant ar gael i'r datblygiad.

**13 Garreg Frech**

Bu llythyru pellach efo Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd, a Mabon ap Gwynfor AS Dwyfor Meirionnydd.

Rhoddwyd pwysau ar Gyngor Gwynedd i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth Eiddo Gwag er mwyn dod â'r Eiddo yn 13 Garreg Frech yn ôl i ddefnydd.

Nododd Cyngor Gwynedd fod Grŵp Gweithredol wedi ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael ag eiddo gwag problemus yng Ngwynedd.  Yn ogystal, fe ddywedwyd fod Swyddog Tai Gwag ychwanegol i'w benodi, (fyddai'n canolbwyntio ar faterion gorfodaeth megis gwerthiant gorfodol ac yn y blaen), a hyn fel rhan allweddol o brotocol cydweithio trawsadrannol, gyda'r bwriad o ddod ac eiddo gwag problemus yn ôl i ddefnydd mewn ffordd adweithiol ac amserol.

Ychwanegodd Cyngor Gwynedd eu bod yn gobeithio mynd i'r afael ag 13 Garreg Frech a sawl eiddo gwag problemus arall yn y Sir yn ystod y flwyddyn i ddod.

Fodd bynnag, rhoddodd Cyngor Gwynedd wybod na fyddent am ddefnyddio'r Ddeddfwriaeth Eiddo Gwag er mwyn dod ag 13 Garreg Frech yn ôl i ddefnydd.

Mae Cyngor Cymuned Llanfrothen wedi rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd eu bod yn siomedig iawn o glywed hyn, yn enwedig o gofio cyd-destun yr addewidion a roddwyd, ac yn ystyried pa opsiynau eraill i'w cymryd.

**Tafarn Y Ring, Llanfrothen**

Gan fod y dafarn yn wag, cysylltwyd efo bragdy Robinsons er mwyn holi pa fwriadau oedd ganddynt o ran ail agor.

Sefydlodd y gymuned grŵp cymunedol er mwyn dod â'r dafarn yn ôl i ddefnydd. Cefnogodd y cyngor cymuned y grŵp, a bu llawer o lythyru efo bragdy Robinsons a stad Brondanw sydd berchen Y Ring.

Bu i'r dafarn agor yn llwyddiannus.

**Y Ganolfan Llanfrothen**

Yn dilyn gosod cegin newydd yn ystod 2022 / 2023, a phaentio'r adeilad yn fewnol, mae yna fwy o ddefnydd wedi bod o'r Ganolfan, e.e. ar gyfer cyfarfodydd cymunedol ac fel lle ymarfer ar gyfer grŵp pop lleol.

**Mesurau Arafu Traffig yn Llanfrothen**

Parheir i ddisgwyl i Gyngor Gwynedd osod llinellau gwyn ynghanol pentref Garreg er mwyn ceisio arafu cyflymder y traffig.

Mesurwyd cyflymder traffig yn y pentref. Y casgliad oedd bod yna oryrru ar adegau.

Yn anffodus, mae natur y ffordd drwy bentref Garreg/Llanfrothen yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau presenoldeb gan GanBwyll

**Cyfarfod efo Ymddiriedolwyr Brondanw**

Mae cynrychiolwyr o'r cyngor cymuned yn mynychu cyfarfod efo Ymddiriedolwyr Brondanw yn flynyddol, gan mai Ymddiriedolaeth Brondanw sydd berchen Tafarn y Ring a nifer o dai ac asedau eraill yn y gymuned.

Mae elw yn cael ei wneud o'r Cynllun Hydro.  Cafwyd addewid gan yr Ymddiriedolwyr i wneud cyfraniad ariannol i'r cyngor cymuned yn y dyfodol.

**Llwybr cerdded a beicio Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Lluniwyd cynllun ac achos dichonoldeb ar greu llwybr cerdded o Lanfrothen rai blynyddoedd ôl, ac fe fu trafodaethau efo Cyngor Tref Penrhyndeudraeth.

Cafwyd cost ddiwygiedig ar gyfer y llwybr yn nhermau prisiau heddiw, a bydd yn costio rhai miliynau.

Penderfynwyd ail edrych ar y cynlluniau, a gweld os byddai fersiwn mwy syml yn opsiwn posibl.

**Cysgodfan Fws**

Cytunwyd i ddylunio a gosod cysgodfan fws dros y ffordd i dafarn Y Ring. Ar hyn o bryd does dim cysgodfan yn Rhyd, ac mae disgyblion sy'n disgwyl am y bws i fynd i'r ysgol yn gorfod aros heb lawer o gysgod.

Mae dyluniadau ar gyfer y gysgodfan wedi eu llunio gan bensaer, ac fe obeithir cyflwyno cais cynllunio yn fuan.

**Diffribliwyr Croesor, Garreg a Rhyd**

Llwyddwyd i godi £805.40 ar gyfer adnewyddu'r diffribliwyr yng Nghroesor, Garreg a Rhyd.

Yn dilyn asesiad gan swyddog o'r GIG, casglwyd fod y diffribrilwyr wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

Mae diffribriliwr newydd wedi ei osod yng Nghroesor, a bydd rhai newydd yn cael eu gosod yn Garreg a Rhyd yn fuan.

Byddai costau cynnal a chadw'r diffribrilwyr ac adnewyddu padiau a batris yn rhatach ar gyfer y dyfodol.

Cytunwyd i osod blwch ym maes parcio Croesor ble y gall ymwelwyr gyfrannu tuag at y diffribliwyr drwy arian neu drwy sganio cod QR.

**Rhoddion Ariannol**

Yn ystod y flwyddyn 2022 / 2023, gwnaethpwyd y rhoddion canlynol:

Ysgol Y Garreg, Llanfrothen £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £50
Papur Bro'r Wylan £50

**Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol hwn yng nghyfarfod 13 Mai 2024 o Gyngor Cymuned Llanfrothen**